

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

17 Mehefin 2015

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Mr D Ellis, y Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, y Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, y Cynghorydd ST Hudson, y Cynghorydd Mrs L Jenkins, y Cynghorydd RM Lewis, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, y Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.30am – 12.30pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mr A Archer, y Cynghorydd R Kilmister a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. Datgelu Buddiant

Datgelodd Mrs G Hayward fuddiant personol a niweidiol yn Adroddiad Rhif 27/15 - Gwerthiant arfaethedig Lime Keepers Cottage, Y Parrog, Trefdraeth (*Gweler Cofnod 7 isod*).

Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant personol a niweidiol yn Adroddiad Rhif 27/15 - Gwerthiant arfaethedig Lime Keepers Cottage, Y Parrog, Trefdraeth (*Gweler Cofnod 7 isod*).

Datgelodd y Cynghorydd ML Evans fuddiant personol a niweidiol yn Adroddiad Rhif 28/15 - Cyfarwyddydau Erthygl 4 i gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir penodol sy'n effeithio ar ansawdd Ardaloedd Cadwraeth Trefdraeth a Dinbych-y-Pysgod (*Gweler Cofnod 8 isod*).

Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant personol a niweidiol yn Adroddiad Rhif 28/15 - Cyfarwyddydau Erthygl 4 i gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir penodol sy'n effeithio ar ansawdd Ardaloedd Cadwraeth Trefdraeth a Dinbych-y-Pysgod (*Gweler Cofnod 8 isod*).

Datgelodd y Cynghorydd M Williams fuddiant personol a niweidiol yn Adroddiad Rhif 28/15 - Cyfarwyddydau Erthygl 4 i gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir penodol sy'n effeithio ar ansawdd Ardaloedd Cadwraeth Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod (*Gweler Cofnod 8 isod*).

Datgelodd y Cynghorydd PJ Morgan fuddiant personol a niweidiol yn Adroddiad Rhif 29/15 - yr adolygiad o Ardaloedd Cadwraeth ac ystyried Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Aber Bach i leihau hawliau datblygu a ganiateir penodol sy'n effeithio ar ansawdd yr Ardal Gadwraeth (*Gweler cofnod 9 isod*).



Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant personol yn Adroddiad Rhif 35/15 - Adolygiad o Gyrcfan Sir Benfro (*Gweler cofnod 15 isod*).

NODWYD.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai 2015.

4. Materion sy'n codi

Cofnod 12 - Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Parciau Cenedlaethol Cymru wedi cyfarfod â'r Panel Adolygu Tirweddau Dynodedig yn ffurfiol ar 28 Mai 2015. Bu'n sesiwn gadarnhaol iawn ac roedd Aelodau'r Panel yn gefnogol iawn ac wedi gofyn am ragor o wybodaeth. Ar hyn o bryd roedd y Panel yn cynnal sesiynau deuddydd ar gyfer casglu tystiolaeth. Disgwylir adroddiad y Panel yn ystod misoedd Gorffennaf / Awst.

NODWYD.

5. Adroddiadau am gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol am gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried / er gwybodaeth:

- (i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2015;
- (ii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2015;
- (iii) Cyd-grŵp Craffu'r Parciau Cenedlaethol ar yr economi a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2015;
- (iv) Y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mai 2015, a
- (v) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2015.

PENDERFYNWYD:

- (a) derbyn yr adroddiad am y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2015, a
- (b) bod yr adroddiadau am gyfarfodydd y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, Cyd-grŵp Craffu'r Parciau Cenedlaethol ar yr economi, Pwyllgor Adolygu'r Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a'r Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr, a gynhaliwyd ar y dyddiadau uchod, yn cael eu mabwysiadu.



6. Siarter Cymru ar gyfer cefnogi a datblygu Aelodau

Croesawodd y Cadeirydd Ms Sarah Titcombe, Cynghorydd Datblygiad Personol a Sefydliadol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i'r cyfarfod.

Dywedodd Ms Titcombe ei bod yn bleser cael bod yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw i ddyfarnu Siarter Cymru ar gyfer cefnogi a datblygu Aelodau i'r Awdurdod. Llongyfarchodd bawb ar gael y wob, yn enwedig y rhai a oedd wedi rhoi'r cyflwyniad ar gyfer y Siarter. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos arferion ardderchog ac ymarferol iawn, a chydweithio buddiol rhwng yr Aelodau a'r swyddogion i ddatblygu rhaglen gefnogi a datblygu a oedd yn cwmpasu'r hyn yr oedd yr Aelodau ei angen.

Aeth rhagddi i ddweud bod yr holl awdurdodau lleol yn wynebu cyfnod cythryblus, ac y byddai angen cefnogaeth ar yr Aelodau. Serch hynny, dangosodd yr Awdurdod dystiolaeth o arfer gorau y gllai awdurdodau eraill ddysgu oddi wrtho, a chredai fod y rhaglen cefnogi a datblygu presennol yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer camu ymlaen i'r Dyfarniad Uwch.

Yna rhoddodd Ms Titcombe Dystysgrif i'r Cadeirydd am gyflawni Siarter Cymru ar gyfer cefnogi a datblygu Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Titcombe am ddod i'r cyfarfod i gyflwyno'r Wobr yn bersonol. Roedd hefyd am ddiolch i'r tîm Gwasanaethau Democraidd a'i gyd-Aelodau ar y Gweithgor Strategaeth Datblygu Aelodau am eu gwaith caled yn gwneud y Wobr yn bosibl.

NODWYD.

(Aeth y Cynghorydd P Harries a Mrs G Hayward allan o'r cyfarfod pan gafodd yr eitem ganlynol ei hystyried.)

7. Gwerthiant arfaethedig The Lime Keepers Cottage, Y Parrog, Trefdraeth

Trafododd yr Aelodau adroddiad manwl a gyflwynwyd ar ran Grŵp Eiddo a Phrosiectau yr Awdurdod, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwerthu rhydd-ddaliadaeth Lime Keepers Cottage yn y Parrog, Trefdraeth i Gymdeithas Cychod Afon Nyfer a Harbwr Trefdraeth (y 'Gymdeithas').

Soniwyd bod yr eiddo dan sylw wedi'i brydlesu gan y Gymdeithas ers 2008, a'i fod yn cael ei ddefnyddio fel lle storio. Roedd y Gymdeithas wedi cynnig £21,000 i brynu rhydd-ddeiliadaeth yr eiddo. Roedd y swm a gynigiwyd £9,000 yn is na'r hyn y prisiwyd yr adeilad arno yn ddiweddar gan gwmni allanol o Syrfewyr Siartredig; fodd bynnag, roedd y Grŵp Prosiectau ac Eiddo o'r farn bod nifer o fanteision o werthu'r adeilad i'r



Gymdeithas, ac roedd y rhain wedi eu nodi yn fanwl yn yr adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw. Cydnabuwyd hefyd y byddai unrhyw benderfyniad i werthu'r eiddo am lai na gwerth y farchnad angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ymlaen llaw.

Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r gwerthiant mewn egwyddor, ond roeddynt yn pryderu y gallai'r eiddo gael ei werthu am elw yn y dyfodol, ac y gallai gael ei ddefnyddio mewn modd nad oedd yn gydnaws â dibenion yr Awdurdod na'i bolisiau cynllunio. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd am y materion hyn, ynghyd â sicrwydd y byddai'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da ac y byddai'r Awdurdod yn cael y cynnig cyntaf i brynu'r eiddo'n ôl am y pris y talodd y Gymdeithas amdano. Hefyd, gofynnwyd a allai'r Gymdeithas roi dehongliad o'r hyn sydd yn fath cymharol brin o adeilad rhestredig.

PENDERFYNWYD bod rhydd-ddeiliadaeth Lime Keepers Cottage yn y Parrog, Trefdraeth yn cael ei werthu i Gymdeithas Cychod Afon Nyfer a Harbwr Trefdraeth am bris o £21,000 yn amodol ar y canlynol:

- (a) cyfyngiadau ar ei ddefnydd yn y dyfodol;
- (b) yr hawl i ailbrynu'r eiddo am y swm a dalwyd gan y Gymdeithas, sef £21,000;
- (c) cynnal a chadw'r adeilad yn briodol;
- (d) y darperir dehongliad o hanes yr adeilad, ac
- (e) y ceir cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ymlaen llaw.

(Gadawodd y Cyngorwyr ML Evans, P Harries ac M Williams y cyfarfod pan gafodd yr eitem ganlynol ei thrafod.)

8. Cyfarwyddydau Erthygl 4 i gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir penodol sy'n effeithio ar ansawdd Ardaloedd Cadwraeth Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Swyddog Cadwraeth Adeiladau y penderfynwyd, yng nghyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 25 Mawrth 2015, bod Cyfarwyddydau yn cael eu gwneud yn unol ag Erthygl 4(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd, mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod. Roedd y penderfyniad wedi'i wneud mewn ymdrech i atal y dirywiad yn yr Ardaloedd Cadwraeth oherwydd bod perchnogion yn newid gwedd allanol eu heiddo.

Dechreuwyd proses ymgynghori ar y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddydau Erthygl 4 ar 27 Mawrth 2015. Cafwyd pedwar ymateb o gefnogaeth yn ardal Dinbych-y-pysgod a phum ymateb ar gyfer ardal Trefdraeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion ar gyfer Trefdraeth yn gofyn am ragor o wybodaeth, ac roedd un llythyr gan unigolyn preifat yn cefnogi safiad yr Awdurdod. Dywedwyd hefyd, ers ysgrifennu'r adroddiad, bod cyfarfod



wedi'i gynnal gyda Chyngor Tref Trefdraeth, a oedd yn cefnogi'r cynnig yn llawn.

O ystyried y gefnogaeth a dderbyniwyd, **PENDERFYNWYD:**

- (a) bod y Cyfarwyddydau yn unol ag Erthygl 4(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd, yn cael eu cadarnhau mewn perthynas â'r tir o fewn Ardaloedd Cadwraeth Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod, ac fel yr amlygwyd ar y mapiau a atodwyd i'r adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, a
- (b) bod yr Aelodau'n nodi'r Cyfarwyddydau Erthygl 4(2) ffurfiol a atgynhychwyd ac a oedd hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

(Aeth y Cynghorydd PJ Morgan allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.)

9. Adolygiad o Ardaloedd Cadwraeth ac ystyried Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Aber Bach i leihau hawliau datblygu a ganiateir penodol sy'n effeithio ar ansawdd yr Ardal Gadwraeth

Atgoffwyd yr Aelodau bod 14 Ardal Gadwraeth yn y Parc Cenedlaethol. Roedd yr Ardaloedd hyn yn canolbwyntio ar adeiladau heb eu rhestru ac yn cynrychioli'r aneddiadau o'r pwys pensaernïol a hanesyddol mwyaf yn y Parc Cenedlaethol, ac a oedd yn adnodd pwysig na allai bara am byth. I sefydlu hyd a lled unrhyw fgythyad i'w cymeriad a'u gwedd (ee diflaniad manylion bach ond arwyddocaol fel ffenestri hanesyddol, waliau gardd, simneiau ac ati neu gyflwyno nodweddion newydd fel dysglau lloeren), cynhaliwyd arolygon llinell sylfaen rheolaidd i edrych ar gymeriad cyffredinol yr Ardaloedd a chyflwr yr adeiladau heb eu rhestru sydd ynddyn nhw.

Yn dilyn yr arolygon hyn, roedd adroddiad wedi'i gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod ar 24 Medi 2014 a ddywedai mai Ardaloedd Cadwraeth Tyddewi, Trefdraeth, Dinbych-y-pysgod, Aber Bach a Saundersfoot oedd y rhai mwyaf bregus o ran newidiadau. O ganlyniad, roedd Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) eisoes wedi'i gadarnhau ar gyfer Tyddewi, ac roedd Cyfarwyddydau ar gyfer Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod wedi'u cadarnhau yn gynharach y diwrnod hwnnw (*gweler cofnod 8 uchod*).

Roedd yr adroddiad a oedd yn awr gerbron yr Aelodau yn manylu ar gyflwr pob un o'r 14 Ardal Gadwraeth fel yr oeddynt yn 2015. Roedd 8 wedi aros yr un fath, 1 (Solfach) wedi gwella a 2 (Aber Bach a Saundersfoot) wedi dirywio ychydig. Cyfeiriwyd eisoes at y tri oedd yn weddill (Tyddewi, Trefdraeth a Dinbych-y-pysgod).



O ran Saundersfoot, roedd arolwg a gynhaliwyd ym mis Mai 2015 yn dangos gwelliant bach o ran cymeriad ar ôl cyfnod o ddirywiad. Ystyriwyd felly nad oedd unrhyw fgythiad "go iawn a phenodol" ar hyn o bryd a bod yr Ardal Gadwraeth yn cael ei hadolygu bob dwy flynedd, fel yr 8 Ardal Gadwraeth y mae eu cymeriad yn aros yn "statig" gan mwyaf. Fodd bynnag, ystyriwyd bod bygythiad "go iawn a phenodol" i gymeriad a gwedd y tai anrhestredig yn Aber Bach. Ceisiwyd cymeradwyaeth felly ar gyfer gwneud Cyfarwyddydau Erthygl 4(2) mewn perthynas â'r Ardal Gadwraeth hon. Roedd yn pwysleisio bod y pŵer hwn yn gyfyngedig i rai mathau o ddatblygiad a'i fod ond yn berthnasol lle byddai datblygiad o'r fath yn wynebu priffordd gyhoeddus, dyfrffordd neu fan agored. Roedd manylion y broses gyfreithiol wedi'u nodi yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) bod y Cyfarwyddydau yn cael eu gwneud a'u gweithredu yn unol ag Erthygl 4(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 er mwyn atal y datblygiad a ganiateir gan Ddosbarthiadau A ac F, o Ran 1, Dosbarth A o Ran 2 a Dosbarth B o Ran 31 o'r Gorchymyn rhag cael ei wneud mewn perthynas â'r tir o fewn Ardal Gadwraeth Aber Bach fel y dangosir ar y Cyfarwyddyd drafft a atodwyd i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau y diwrnod hwnnw, a
- (b) bod adroddiad ar y sylwadau yn cael ei roi i'r Aelodau, yn ceisio cadarnhad o'r Cyfarwyddyd o fewn y cyfnod statudol o chwe mis.

10. Blaenoriaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol 2015-2016

Cafodd yr aelodau eu hysbysu am llythyr a dderbyniwyd gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a oedd yn amlinellu'r blaenoriaethau yr oedd Llywodraeth Cymru yn dymuno i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ganolbwyntio arnynt yn ystod 2015/16. Roedd y rhain yn cynnwys cyfrannu at dwf gwyrdd Llywodraeth Cymru a'r agenda trechu tloedi; parhau i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau cynllunio; cyfrannu tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chymryd rhan yn y Flwyddyn Antur arfaethedig y byddai'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn ei chyhoeddi yn 2016.

PENDERFYNWYD bod y llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn amlinellu blaenoriaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2015/16 yn cael ei nodi.

11. Y Gofrestr Risg

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Rheolwr Busnes a Pherfformiad eu bod wedi gofyn am adolygiad o'r ffordd y mae cofrestr risg yr Awdurdod yn cael ei rheoli / monitro - ac yn benodol mewn perthynas â'r dull presennol o roi'r gwaith o fonitro risgiau i Aelodau unigol. Roedd yr Aelodau o'r farn nad yw'r dull penodol hwn wedi bod yn effeithiol oherwydd nifer o ffactorau



gwahanol ac roeddent yn credu y byddai'n fwy buddiol i gael gwybodaeth lawn yn amlach, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw newidiadau posibl yn y risgiau.

Felly, cynigiwyd fel a ganlyn:

- (a) bod y gofrestr risgiau, yn y dyfodol, yn eitem sefydlog ar ddau Bwyllgor Adolygu'r Awdurdod;
- (b) bod unrhyw newidiadau i lefel y risg yn cael ei grybwyll fel y gellir adnabod unrhyw duedd;
- (c) bod adroddiad yn cael ei wneud ar y hynt camau gweithredu sy'n gysylltiedig â lliniaru risg;
- (d) na fyddai'r risgiau bellach yn cael eu rhoi i Aelodau unigol i'w monitro, a
- (e) bod y gofrestr risg ddiweddaraf yn cael ei rhoi gerbron yr Awdurdod bob blwyddyn.

Croesawodd Mrs M Thomas y newid mewn agwedd tuag at adrodd am risg, ond awgrymodd y dylai swyddogion ystyried cyflwyno cyfres o "ddangosyddion rhybudd cynnar" ar gyfer risgiau allweddol. Pe cyrhaeddid y pwyntiau sbardun, dylid tynnu sylw'r Aelodau at hynny, naill ai drwy un o'r Pwyllgorau Adolygu neu mewn cyfarfod o'r Awdurdod. Atebodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad y byddai unrhyw broblemau/materion yn cael eu codi naill ai yn y Grŵp Iechyd a Diogelwch neu'r Grŵp Eiddo a Phrosiectau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod yn ystyried prosesau rheoli risg yr Awdurdod maes o law, ac y byddai cyfle i godi'r mater hwn bryd hynny.

PENDERFYNWYD bod y drefn ddiwygiedig, fel y nodwyd yn adroddiad y Rheolwr Busnes a Pherfformiad, ar gyfer adrodd ar gofrestr risg yr Awdurdod yn cael ei chadarnhau.

12. Y Cynllun Iaith Gymraeg: Adroddiad Monitro Blynyddol

Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n nodi sut y byddai'r Awdurdod yn gweithredu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ar ei berfformiad ar sail y Cynllun hwn, ac i gyflwyno hyn i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Felly, gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r adroddiad, a ddosbarthwyd iddynt cyn y cyfarfod, fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd wrth yr Aelodau mai hwn fyddai'r Adroddiad Monitro olaf i gael ei gyflwyno yn ei ffurf bresennol, gan fod y broses adrodd ar fin newid yn sgil gweithredu



Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2015. Dywedodd fod Comisiynydd y Gymraeg ar fin rhoi Hysbysiad Cydymffurfio drafft i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol, pob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru, a fyddai'n gosod y Safonau Iaith Gymraeg y dylid cydymffurfio â hwy wrth gynnal eu busnes, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ar y mater hwn maes o law.

PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg.

13. Protocol datrysiad lleol Aelod

Dywedwyd bod yr Awdurdod, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2013, wedi mabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol Aelod a oedd yn seiliedig ar ganllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac a oedd yn manylu sut y byddai'r Awdurdod yn ymdrin ag unrhyw gŵyn ar lefel isel a wneir gan Aelod yn erbyn ei gyd-Aelodau.

Roedd y Swyddog Monitro yn falch o allu dweud na ddaeth unrhyw gwynion i law a oedd yn gofyn am roi'r Protocol ar waith, ac yn ei farn ef y rheswm am hyn oedd y ffaith bod yr Aelodau'n mynd i ddigwyddiadau hyfforddi yn rheolaidd ac yn cadw at God Ymddygiad yr Aelodau.

PENDERFYNWYD nodi adroddiad y Swyddog Monitro.

14. 14. Cymeradwyaethau grant yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol (Diwygiwyd 2012)

Dywedodd y Rheolwr Cyllid, yn unol ag Adran 78 o Safonau Ariannol 2012, bod angen awdurdodiad gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol lle mae taliad grant / nawdd o fwy na £10,000 gael ei wneud o dan unrhyw gytundeb.

Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, syrthiodd dau daliad i'r categori hwn: taliad o £14,033 i Fforwm Arfordir Sir Benfro i helpu i integreiddio a rheoli gweithgaredd arfordirol, a thaliad o tua £72,000 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at y Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro. Roedd manylion y taliadau a wnaed yn yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw. Tynnwyd sylw hefyd fod y ddau daliad wedi'u gwneud ers nifer o flynyddoedd, ond roedd gofyn yn awr i'r Aelodau eu hawdurdodi o ganlyniad i ddiwygiad yn y Safonau Ariannol yn 2012.

Roedd yr aelodau yn hynod o gefnogol i'r Bartneriaeth Lonydd Glas, ond cwestiynwyd y swm a dalwyd ar gyfer 'gwariant ystafell gefn' a gofynnwyd am ddadansoddiad o'r hyn a oedd dan sylw. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n trefnu i gyflwyniad gael ei wneud i'r Aelodau ar y gwaith sydd yn gysylltiedig â Phartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro.



PENDERFYNWYD fod y taliadau a nodwyd yn adroddiad y Rheolwr Cyllid ar gyfer Fforwm Arfordir Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro yn cael eu cymeradwyo.

15. Adolygiad o Gyrchfan Sir Benfro

Soniwyd mai partneriaeth leol anffurfiol oedd Cyrchfan Sir Benfro a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Penfro, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Twristiaeth Sir Benfro a PLANED. Roedd y bartneriaeth yn gyfrifol am osod y weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer datblygu twristiaeth yn lleol ac am gysylltu â rhanddeiliaid lleol a Croeso Cymru i greu a darparu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan ar gyfer Sir Benfro. Mae gwaith y bartneriaeth hefyd yn gonglfaen ymrwymiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i feithrin "economi gystadleuol, cynhyrchiol a chynaliadwy" yn lleol, fel y nodir yng Nghynllun Integredig Sengl Sir Benfro.

Fodd bynnag, yn y misoedd diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi dechrau pryderu y gallai effaith toriadau yn y gyllideb ar draws ystod eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, o bosibl, gael effaith negyddol ar y gwasanaethau twristiaeth yn lleol ac ar economi ehangach Sir Benfro. Yn ogystal, roedd yn awyddus i sicrhau bod gan y sir y mecanwaith cyflawni gorau posibl i sicrhau llwyddiant yn y tymor hir a thwf yr economi dwristiaeth.

I'r perwyl hwn, roedd ymgynghorwyr wedi'u comisiynu i edrych ar y trefniadau ariannu a llywodraethu yn y dyfodol ar gyfer darparu cyrchfan dwristiaeth, ac roedd crynodeb o'r canfyddiadau ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

Croesawodd yr aelodau yr adroddiad; roeddynt yn gadarn o'r farn bod twristiaeth yn elfen bwysig o economi Sir Benfro a bod angen am strwythur / grŵp ffurfiol i ddatblygu yr hyn a oedd, yn eu barn hwy, yn ddarn pwysig o'r jig-so o ran cynaliadwyedd cymunedau Sir Benfro.

PENDERFYNWYD nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyflawni a Darganfod ar yr adolygiad o Gyrchfan Sir Benfro.

16. Arddangos un o luniau Constable yn Oriel y Parc

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad am y ffaith bod un o luniau enwocaf John Constable, *Salisbury Cathedral from the meadows*, i gael ei arddangos yn Oriel y Parc yn ystod 2016.

NODWYD.

(Ymddiheurodd y Cynghorydd M Williams a gadawodd y cyfarfod ar y pwynt hwn.)



17. Adroddiadau Cynllun Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a Llwyrddo â Llai (gwasanaethau cynllunio)

Dyweddodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau ei fod yn dal i aros am yr adroddiadau Cynllun Gwella Blynyddol a Llwyrddo â Llai (gwasanaethau cynllunio) gan Swyddfa Archwilio Cymru.

NODWYD.

